Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Jeff Cuthbert AC
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Llywodraeth Cymru

29 Gorffennaf 2014

Annwyl Weinidog

Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 16 Gorffennaf, trafododd y Pwyllgor oblygiadau ariannol y Bil hwn. Roedd gan yr Aelodau nifer o ymholiadau yr hoffem gael eich barn arnynt.

Mae Atodiad A yn cynnwys manylion am y meysydd yr hoffem eich ymateb arnynt. Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Alun Ffred Jones AC, Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

Yn gywir,

**Jocelyn Davies AC**
**Cadeirydd**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 2089 8809
E-bost: PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

**Atodiad A**

**Effaith Comisiwn Williams ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus**

Mae'r costau a geir yn y Bil ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn seiliedig ar sefyllfa bresennol y 22 o awdurdodau lleol a'r 19 o Fyrddau Gwasanaeth Lleol, a chânt eu rhannu rhwng awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus penodol eraill. Os caiff argymhellion y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus eu datblygu a bod awdurdodau lleol yn uno, yna byddai llai o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac fel mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi, byddai unrhyw gostau'n lleihau'n unol â hynny.

<u>Mae'r Pwyllgor yn gofyn ichi roi manylion am p'un a fyddai'n ofynnol i awdurdodau lleol sydd wedi uno'n ddiweddar lunio asesiadau a chynlluniau llesiant lleol newydd a sefydlu Pwyllgorau Craffu newydd, yn ogystal ag a oes unrhyw asesiad o arbedion posibl wedi'i wneud.</u>

**Costau i gyrff cyhoeddus penodol**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y disgwylir i'r costau i gyrff cyhoeddus yng Nghymru o fodloni gofynion y Bil gael eu talu gan ddefnyddio'r adnoddau presennol ar gyfer pennu amcanion corfforaethol ac adrodd arnynt. Mae'r Memorandwm hefyd yn egluro bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwaith ymchwil i sefydlu'r costau llinell sylfaen ar gyfer pennu amcanion strategol o fewn sefydliadau. Mae'r Memorandwm yn nodi y bydd gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gostau cynyddol o tua £537,000 dros bum mlynedd gyntaf y Bil ar gyfer mynd i gyfarfodydd, cyhoeddi asesiadau llesiant a threfniadau craffu ychwanegol.

<u>Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael manylion am unrhyw drafodaethau a gafwyd gyda'r cyrff cyhoeddus penodol i ddilysu'r ffigurau hyn i weld a ydynt yn realistig ac a ydynt o'r farn y gallai'r costau arwain at yr angen i ailflaenoriaethu i ffwrdd o adnoddau'r rheng flaen.</u>

**Ffioedd archwilio ychwanegol**

Mae'r Memorandwm yn egluro, yn ôl y gyfraith, bod yn rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru godi ffioedd am archwilio cyfrifon llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill. O dan ddarpariaethau'r Bil, bydd yr Archwilydd yn archwilio'r cyrff cyhoeddus penodol, gyda datblygu cynaliadwy yn un o'r prif egwyddorion. Mae'r Memorandwm yn nodi nad yw wedi bod yn bosibl i ddarparu ffigurau ar gyfer y ffioedd archwilio a godwyd ar bob corff unigol a fydd yn destun dyletswyddau'r Bil.

<u>Mae'r Pwyllgor yn gofyn ichi roi manylion am unrhyw gostau ychwanegol y gellid disgwyl i gyrff cyhoeddus penodol eu talu i archwilio eu cyfrifon.</u>

**Adroddiad PricewaterhouseCoopers (PWC)**

Mae paragraff 327 o'r Memorandwm yn nodi y comisiynwyd PWC i asesu effaith weinyddol y ddeddfwriaeth ar gyrff cyhoeddus sy'n destun y Bil, ond - er ei fod wedi nodi'r angen am newid diwylliannol o fewn sefydliadau, arweinyddiaeth well a gweithio'n well rhwng partneriaethau - ni allai roi

asesiad meintioledig o'r costau dan sylw. Mae'r Memorandwm yn egluro'r canlynol mewn perthynas â'r sefydliadau a gyfrannodd at waith ymchwil PWC:

> The organisations who took part in the research were not able to establish a baseline position in relation to their current cultures and behaviours and as a result PWC were unable to provide even a broad estimate of the likely costs associated with cultural change[7].
>
> Daw adroddiad PWC i'r casgliad bod manteision y Bil yn gwrthbwyso'r effeithiau gweinyddol negyddol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Bil yn sylweddol.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech amcangyfrif y gost o weithredu newidiadau diwylliannol mewn awdurdodau cyhoeddus penodol.